

Barod i Rentu:

Symud i mewn



Symud i mewn

Mae cryn lawer o bethau i feddwl amdanynt pan fyddwch chi'n symud i mewn i dŷ newydd. Rydyn ni wedi nodi rhai o'r pethau allweddol sydd angen i chi eu gwneud cyn ac ar ôl symud i mewn i'ch cartref newydd.

Fis cyn i chi symud i mewn:

- Gwiriwch y gwaith papur i wneud yn sicr eich bod chi wedi gwneud popeth sy'n rhaid ei wneud i gael gafael ar yr allweddi, e.e.
- Talu'r blaendal
- Talu mis cyntaf eich rhent / rhent ymlaen llaw
- Darparu ffurflen wedi'i harwyddo gan eich gwarantwr
- Cwblhau ffurflenni archebion sefydlog ar gyfer taliadau rhent yn y dyfodol

Os yw'n gytundeb ar y cyd, gwnewch yn sicr fod pob un o'r cyd-denantiaid eraill hefyd wedi gwneud yr hyn sydd angen ei wneud, yn arbennig os ydych chi wedi arwyddo'r cytundeb fisoedd ymlaen llaw.

Diwrnod symud i mewn:

Gwnewch yn sicr fod gennych gofnod o gyflwr yr eiddo a'r hyn gaiff ei ddarparu. Gall casglu'r wybodaeth hon wrth symud i mewn deimlo fel gwaith caled, ond bydd yn allweddol mewn unrhyw anghydfod ynglŷn â'ch blaendal.

Dylai'r landlord gwblhau **rhestr eiddo** h.y. rhestr o bopeth sydd yn y tŷ, ac yn bwysig iawn, ei gyflwr. Dylech gael copi i'w wirio a'i arwyddo. Gwnewch yn sicr eich bod yn:

- Nodi unrhyw newidiadau.
- Arwyddo a dyddio'r rhain.
- Anfon y fersiwn wedi'i newid yn ôl i'ch landlord.
- Cadw copi.



Os nad yw eich landlord yn llunio rhestr, gallech fynd ati i lunio un eich hun. Mae gan Shelter [dempledi](#) y gallwch chi eu defnyddio ac mae gan Shelter yr Alban app ar gyfer rhestrau eiddo o'r enw [HouseMate](#). Gwnewch yn sicr eich bod yn:

- Tynnu lluniau o unrhyw ddifrod.
- Adrodd yn ôl i'r landlord/asiant mewn ysgrifen (e.e. e-bost) ynglŷn ag unrhyw faterion, a chadw copi. Hyd yn oed os nad yw'r difrod yn sylweddol neu'n rhywbeth nad ydych chi angen i'r landlord ei drwsio, nodwch e ta waeth, er mwyn bod yn glir nad chi sy'n gyfrifol amdano.
- Os oes pethau angen eu trwsio/ailosod, rhowch amser rhesymol i'r landlord wneud hynny ar ôl i chi ysgrifennu atynt.

Rhaid i'ch landlord eich darparu â'r canlynol:

- Tystysgrif Diogelwch Nwy. Rhaid i'r landlord ddarparu un bob blwyddyn os oes cyfarpar nwy yn yr adeilad.
- Tystysgrif Perfformiad Ynni. Gall hwn effeithio ar eich biliau ynni, a rhaid i'r landlord ddarparu un cyn i chi symud i mewn (ac eithrio Tai Amlfeddiannaeth ac ambell fath arall o eiddo, megis adeiladau a restrwyd).
- Yn yr Alban, rhaid i'ch landlord eich darparu â chopi o'r Pecyn Gwybodaeth i Denantiaid; os nad ydyn nhw wedi gwneud hyn erbyn i chi symud i mewn, cysylltwch â'ch awdurdod lleol.

Dylai eich landlord hefyd eich darparu â'r canlynol:

- Cofnod o unrhyw archwiliadau trydanol. Rhaid i bob cyfarpar fod yn ddiogel, ac argymhellir eu gwirio bob 5 mlynedd.

Allaf i gerdded i ffwrdd os nad yw'r eiddo'n cyrraedd y safon?

- Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, ni fydd problemau o ran cyflwr yr eiddo'r atal y cytundeb rhag bod yn orfodol.
- Mynnwch gyngor cyn cerdded i ffwrdd o gytundeb, gan ei bod yn bosib y byddwch yn gyfrifol am y rhent.

Rhoi trefn ar y cyfleustodau

- Nodwch y rhifau ar bob mesurydd a chysylltwch â'r cyflenwyr cyfleustodau i gael y biliau yn eich enw chi (rhowch enwau pob cyd-denant ar y bil os yw hynny'n berthnasol). Mae llawer o gyngor gwerthfawr ar sut i ganfod pwy yw eich cyflenwyr presennol ar wefan [Cyngor ar Bopeth](#).
- Hyd yn oed os yw'r biliau'n gynwysedig yn eich rhent, dylech nodi'r rhifau ar bob mesurydd, os oes gennych chi fynediad iddynt.



Yr wythnos gyntaf yn yr eiddo:

- Gwnewch yn sicr fod gennych chi finiau ysbwriel ac ailgylchu; os nad oes, gallwch archebu rhai gan yr awdurdod lleol. Holwch eich awdurdod lleol ynglŷn â phryd caiff y biniau eu gwacáu a sut mae eich cynllun ailgylchu lleol yn gweithio.
- Cyflwynwch eich hun i'ch cymdogion. Gall hyn leihau'r posibilrwydd o anghydfod yn y dyfodol, a gall leihau'r risg o rywun yn torri i mewn i'ch cartref.
- Gwnewch yn sicr eich bod yn gwybod sut i ddefnyddio'r boiler a'r system gwres canolog (os oes gennych chi un) ac unrhyw gyfarpar arall. Mae'r rhan fwyaf o offer y gegin yn dod gyda llyfryn cyfarwyddiadau y gallwch eu cyrchu ar-lein os ydych yn ansicr.
- Gwnewch yn sicr eich bod yn gwybod sut mae troi'r dŵr i ffwrdd a ble mae'r blwch ffiwsys.
- Gwiriwch eich larymau mwg a charbon monocsid o leiaf unwaith y mis.
- Rhowch wybod i'r landlord neu asiant ynglŷn ag unrhyw bethau sydd angen eu trwsio, cynted â phosib, mewn ysgrifen, a chadwch gofnod.

Hefyd gwnewch yn sicr eich bod chi wedi derbyn yr wybodaeth ganlynol sy'n angenrheidiol dan y gyfraith:

Gwiriwch fod eich blaendal wedi ei warchod

Rhaid i'ch landlord roi osod blaendal mewn cynllun blaendaliadau tenantiaid a gefnogir gan y llywodraeth os ydych yn rhentu eich cartref neu os ydych ar denantiaeth fyrddaliol sicr.

Yn **Lloegr ac yng Nghymru**, rhaid iddynt roi gwybod i chi o fewn 30 diwrnod bod eich blaendal yn ddiogel a pha gynllun a defnyddiwyd ganddynt. Dyma'r tri chynllun:

- Y Gwasanaeth Diogelu Blaendaliadau (Gwarchodol ac wedi'i Yswirio)
- MyDeposits - gan gynnwys blaendaliadau a oedd yn nwylo Capita
- Cynllun Blaendal Tenantiaeth

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Gov.uk (<https://www.gov.uk/tenancy-deposit-protection/overview>)



Yn **yr Alban**, rhaid i'ch landlord eich hysbysu o fewn 30 diwrnod o dderbyn eich blaendal a rhoi gwybod i chi sut caiff ei warchod. Mae tri chynllun yn yr Alban:

- Gwasanaeth Amddiffyn Eiddo ar Osod yr Alban
- *Safedeposits* yr Alban
- *My Deposits* yr Alban

Gallwch ganfod mwy o wybodaeth ar wefan Gov.Scot <http://www.gov.scot/Topics/Built-Environment/Housing/privaterent/landlords/tenancy-deposit-schemes>)

Yng **Ngogledd Iwerddon** rhaid i'r landlord neu'r asiant roi gwybod i chi o fewn 28 diwrnod wedi iddynt gael eich blaendal ei fod wedi'i warchod, a rhoi gwybod pa un o'r tri chynllun canlynol maent wedi'i ddefnyddio:

- Cynllun Blaendal Tenantiaeth Gogledd Iwerddon
- *My Deposits* Gogledd Iwerddon (cyswllt allanol)
- Gwasanaeth Gwarchod Gosod Eiddo (LPSNI)

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan NI Direct

(<https://www.nidirect.gov.uk/articles/tenancy-deposit-scheme-introduction-tenants>)

Hefyd yng Ngogledd Iwerddon, o fewn 28 diwrnod o ddyddiad dechrau eich tenantiaeth, rhaid i'ch landlord eich darparu â'r canlynol:

- Datganiad o delerau'r denantiaeth
- Llyfr rhent
- Cysylltwch â'r cyngor os nad yw'r landlord/asiant yn eich darparu â'r rhain.

